Elusen Gofrestredig Rhif 500350

RHEOLAU A THELERAU BENTHYG TELYN

1. Cyfnod benthyg y delyn fydd un mis ar ddeg.

2. Tâl benthyca telyn bedal fydd £385 (11 mis x £35) ac £220 am delyn di-bedal (11 mis x £20). Mae'r tâl llawn yn daladwy o fewn mis o dderbyn y delyn.

3. Bydd y sawl a enwir yn (2) ar y ffurflen gais ynghyd â'r Gwarantwyr yn gyfrifol am gadw'r delyn yn ddiogel.

4. Rhaid cadw'r delyn mewn cyflwr priodol - adnewyddu unrhyw dannau a ddigwydd dorri gyda thannau coludd yn unig; a'i chyflwyno'n ôl i'r Gymdeithas yn yr un cyflwr ag y'i derbyniwyd.

5. Bydd y sawl sydd yn derbyn y delyn yn cytuno i wneud cynnydd boddhaol drwy gael gwersi cyson yn ystod tymor y benthyciad.

6. Bydd hawl gan unrhyw berson a awdurdodir gan y Gymdeithas i weld neu archwilio'r delyn ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr.

7. Rhaid hysbysu'r Swyddog Telynau yn ddi-oed os digwydd unrhyw ddamwain neu ddifrod, ac eithrio tannau'n torri, i'r delyn. Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ymyrryd â'r peirianwaith.

8. Ni chaniateir ar unrhyw gyfrif roddi ei benthyg, ei hurio, neu ei gwerthu i unrhyw berson neu bersonau eraill.

9. Rhaid i'r delyn aros yn y cartref ar wahân i ddibenion addysgiadol pryd y dylid cael caniatâd ysgrifenedig gan Swyddog Telynau CCDC.

10. Os ceir caniatâd i fynd a'r delyn o'r cartref, cyfrifoldeb y person sydd â gofal am y delyn yn ystod cyfnod y benthyciad fydd hynny - **Rhaid** cymryd yswiriant ychwanegol a phriodol i'r pwrpas yma.

11. Ni chaniateir defnyddio'r delyn i bwrpas masnachol.

12. Bydd gan y Gymdeithas hawl i alw y delyn yn ôl unrhyw adeg, a'i chyflwyno i unrhyw berson a enwir gan y Gymdeithas i gael ei benthyg.